WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyhoeddwyd: Ebrill 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 185A2013



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan John Roberts o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Er bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran sut y mae'n rheoli a sicrhau gwelliant, mae'n cydnabod bod angen iddo wneud mwy mewn rhai meysydd 7

Yn ystod 2011-12, llwyddodd yr Awdurdod i brosesu ceisiadau cynllunio yn gynt, cafodd adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr a chyflwynodd ystod o fentrau nodedig mewn sawl maes, ond ni lwyddodd i ddangos effaith ei waith bob amser 7

Mae dull yr Awdurdod o hunanwerthuso ei berfformiad yn parhau i wella, er gwaethaf gwendidau gyda rhai dangosyddion perfformiad y mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â nhw a'r angen i wella ei allu i asesu ei drefniadau llywodraethu ymhellach 10

Er bod yr Awdurdod yn parhau i wella ei gynlluniau ar gyfer gwella a'i drefniadau ategol, mae'n cydnabod bod angen iddo wneud mwy i wneud rhai o'r trefniadau hynny'n rhan annatod o'r Awdurdod 13

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 17

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r Awdurdod 18

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig 19

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 22

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhennir yr adroddiad yn dair prif adran, sy'n cwmpasu'r ffordd y mae'r Awdurdod yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.

2 Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad canlynol: er bod y Awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran sut y mae'n rheoli a sicrhau gwelliant, mae'n cydnabod bod angen iddo wneud mwy mewn rhai meysydd.

3 Nodwyd y canlynol gennym: yn ystod 2011-12, llwyddodd yr Awdurdod i brosesu ceisiadau cynllunio'n gyflymach, cafodd adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr a chyflwynodd ystod o fentrau nodedig mewn sawl maes, ond ni lwyddodd i ddangos effaith ei waith bob amser.

4 Yn ogystal, nodwyd y canlynol gennym: mae dull yr Awdurdod o hunanwerthuso ei berfformiad yn parhau i wella, er gwaethaf gwendidau gyda rhai dangosyddion perfformiad y mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â nhw a'r angen i wneud mwy i werthuso ei drefniadau llywodraethu'n effeithiol.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliannau. Daethom i'r casgliad canlynol: er bod yr Awdurdod yn parhau i wella ei gynlluniau ar gyfer gwella a'i drefniadau ategol, mae'n cydnabod bod angen iddo wneud mwy i wneud rhai o'r trefniadau hynny'n rhan annatod o'r Awdurdod.

# Argymhellion

6 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion statudol yn yr adroddiad hwn.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau eraill lle bo hynny'n briodol, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Awdurdod wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn 2011-12.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Er bod y Awdurdod wedi gwneud cynnydd da o ran sut y mae'n rheoli a sicrhau gwelliant, mae'n cydnabod bod angen iddo wneud mwy mewn rhai meysydd

## Yn ystod 2011-12, llwyddodd yr Awdurdod i brosesu ceisiadau cynllunio yn gynt, cafodd adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr a chyflwynodd ystod o fentrau nodedig mewn sawl maes, ond ni lwyddodd i ddangos effaith ei waith bob amser

11 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar berfformiad yr Awdurdod yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012. Rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd hynny yr oedd yr Awdurdod wedi eu nodi fel amcanion gwella o dan y mesur llywodraeth leol ac ar y dystiolaeth sydd ar gael a allai ddangos a oedd yr amcanion wedi'u cyflawni.

12 Mae swyddogaeth gynllunio'r Awdurdod yn elfen arwyddocaol o'i waith a, fel gydag awdurdodau cynllunio eraill, mae'n cynrychioli maes sy'n destun craffu cyhoeddus rheolaidd. Wrth gydnabod y nodwedd hon, ceisiodd yr Awdurdod asesu lefelau boddhad gyda'i wasanaeth cynllunio. Yna, byddai'r lefelau hyn yn sefydlu gwaelodlin ar gyfer barnu gwelliannau yn y dyfodol. Yn sgil arolygon a holiaduron yr Awdurdod, gwelwyd bod gan 94 y cant o'r rhai a arolygwyd hyder yn y gwasanaeth cynllunio a nododd 88 y cant o gwsmeriaid y gwasanaeth cynllunio fod y gwasanaeth yn dda neu'n well. Mae'n amlwg bod presenoldeb dros 15 o asiantau cynllunio mewn dau gyfarfod arbennig wedi helpu i gyflawni'r ffigurau calonogol hyn. Fodd bynnag, roedd un neu ddau o'r asiantau cynllunio y siaradom â nhw'n teimlo bod gwerth y cyfarfodydd hyn yn cael ei danseilio trwy ganolbwyntio'n ormodol ar achosion unigol a godwyd gan rai yn y cyfarfod. Cysylltwyd â sampl fechan iawn o asiantau cynllunio a chafwyd ymatebion cymysg, er bod yr adborth cyffredinol am wasanaeth cynllunio'r Awdurdod yn gadarnhaol iawn.

13 Mae gwell perfformiad yn 2011-12 mewn perthynas â pha mor gyflym yr oedd y gwasanaeth cynllunio'n gwneud penderfyniadau'n cynnwys y canlynol:

- cafodd 75 y cant o geisiadau gan gartrefi eu penderfynu o fewn wyth wythnos, o gymharu ag ychydig o dan 60 y cant yn 2010-11;
- cafodd 60 y cant o fân geisiadau cynllunio eu penderfynu o fewn wyth wythnos, o gymharu â 57 y cant yn 2010-11;
- cafodd 61 y cant o geisiadau cynllunio eraill eu penderfynu o fewn wyth wythnos, o gymharu â 49 y cant yn 2010-11;
- ar y cyfan, cafodd 67 y cant o geisiadau cynllunio eu penderfynu o fewn wyth wythnos, o gymharu â 57 y cant yn 2010-11 a tharged yr Awdurdod o 65 y cant;
- chafodd y gwelliannau hyn eu gwneud er gwaethaf cynnydd o 17 y cant mewn ceisiadau cynllunio.

14 Mae'r swyddogaeth gynllunio'n rhan bwysig o'r gwaith o ddiogelu'r Parc rhag datblygu amhriodol, ond mae hefyd yn sicrhau y gall datblygiadau fynd yn eu blaen pan fo angen. Mae swyddogaeth gorfodi cynllunio'r Awdurdod yn bwysig yn hyn o beth. Er bod canran yr achosion gorfodi sy'n cael eu datrys o fewn 12 wythnos i'w derbyn wedi cynyddu o 16 i 22 y cant yn ystod 2011-12, roedd y ffigur hwn dipyn yn is na tharged yr Awdurdod o 65 y cant. Roedd y tangyflawniad hwn yn bennaf oherwydd y ffaith na chafodd problemau gyda dull rheoli a strwythur gwasanaeth gorfodi'r Awdurdod, ynghyd â'r ôl-groniad o achosion, sylw effeithiol tan yr ad-drefnu ym mis Chwefror 2012 – ac roedd hynny'n rhy hwyr i ddylanwadu ar berfformiad yn ystod 2011-12. O ystyried y cyfraddau cau a gyflawnwyd ym mis Mawrth 2012, dylem weld gwelliant amlwg yn 2012-13. Fodd bynnag, llwyddodd yr Awdurdod i ennill pob apêl yn erbyn ei benderfyniadau cynllunio.

15 Gan barhau â'i thema o ganolbwyntio ar yr amgylchedd adeiledig, llwyddodd yr Awdurdod i ostwng nifer yr adeiladau hanesyddol a oedd mewn perygl o 132 i 123. I gefnogi ei nod o leihau cyfanswm y gwaith heb ei awdurdodi a wneir ar adeiladau hanesyddol, bu'r Awdurdod yn darparu cyngor cyn ymgeisio ar fwy na 60 o adeiladau rhestredig a chafwyd gostyngiad yn nifer yr achosion gorfodi cofrestredig ar adeiladau rhestredig o 25 i 14. Roedd mentrau cysylltiedig yn cynnwys darparu canllawiau i gynllunwyr ar statws ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig, cwblhau arfarniad ardal gadwraeth yn Aberhonddu a chynhyrchu taflen gyffredinol ar warchod a gwella asedau treftadaeth yn y Parc.

16 Nod y mentrau y cyfrannodd yr Awdurdod atynt yn ystod 2011-12, yn aml mewn partneriaeth ag eraill, oedd cynyddu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn y Parc. Roedd y mentrau hyn yn cynnwys:

- cwblhau astudiaethau dichonoldeb llawn ar bum safle sy'n eiddo i'r Awdurdod ac a oedd â'r potensial i gael eu datblygu'n safleoedd micro-hydro sy'n cynhyrchu ynni;
- cefnogi 11 o gynlluniau hydro a phedwar grŵp ynni cymunedol; a
- chymeradwyo 32 o'r 33 o geisiadau ynni adnewyddadwy a oedd angen cymeradwyaeth.

17 Yn ystod 2011-12, buddsoddodd yr Awdurdod £24,000 trwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ac arbed ynni na fyddent wedi gweld golau dydd fel arall.

18 Gallai rhai o'r mentrau ynni hyn gael effaith gadarnhaol ar ddenu incwm i'r ardal a gwella gwydnwch yr ardal i fedru gwrthsefyll costau tanwydd cynyddol. Un enghraifft o hyn yw'r gwaith a gyflawnodd yr Awdurdod gyda Chwmni Buddiant Cymunedol y Cymoedd Gwyrdd. Arweiniodd hyn at gynnydd yn y gwaith o gynhyrchu tanwydd pren, sy'n gyfwerth â thua £6,015, yn seiliedig ar gostau ynni cyfwerth olew neu nwy petrolewm hylifedig.

19 Ar gyfer 2011-12, aeth yr Awdurdod ati i gynnwys amcan gwella i leihau difrod i amgylchedd y Parc. Y nod oedd cyflawni'r amcan hwn trwy roi prosiectau ymarferol ar waith, gyda phartneriaid yn aml, a fyddai'n lliniaru'r effaith ar y Parc. Roedd rhai o'r prosiectau hyn ond megis dechrau yn ystod 2011-12, ond maent yn cynnwys mentrau yn y Mynyddoedd Du, Comin Henallt, Llangasty Tal-y-Llyn, Caeau Tŷ Mawr a Choetir Carreg Cennen. Er bod natur y prosiectau hyn yn golygu y bydd modd sicrhau cyn lleied o ddifrod i'r Parc â phosibl, mae'r Awdurdod yn cydnabod na lwyddodd i gasglu gwybodaeth a allai ddangos bod y canlyniadau dymunol wedi'u cyflawni. Mae'n cydnabod hefyd fod y prosiectau hyn wedi'u cyfyngu'n bennaf i rannau o'r Parc a oedd yn eiddo i'r Awdurdod.

20 Er mwyn gallu monitro newidiadau i gyflwr y Parc a helpu gydag agweddau megis rheoli cadwraeth, mae'r Awdurdod yn cydnabod y byddai angen rhywfaint o ddata sylfaenol. O ystyried hyn, yn 2011-12 comisiynodd yr Awdurdod asesiad o gymeriad y dirwedd i gwmpasu'r Parc cyfan.

## Mae dull yr Awdurdod o hunanwerthuso ei berfformiad yn parhau i wella, er gwaethaf gwendidau gyda rhai dangosyddion perfformiad y mae'r Awdurdod yn mynd i'r afael â nhw a'r angen i wella ei allu i asesu ei drefniadau llywodraethu ymhellach

21 Ym mis Tachwedd 2012, aethom ati i ysgrifennu at Brif Weithredwr yr Awdurdod i'w gynghori bod yr Awdurdod wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i ddyletswyddau adrodd ar welliannau o dan y Mesur, ond ei fod wedi methu â chyhoeddi ei asesiad o berfformiad cyn y dyddiad cau statudol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- amlinellodd Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar ei Gynllun Gwella ar gyfer 2011-12 (yr Adroddiad Blynyddol) beth yr oedd yr Awdurdod yn bwriadu ei gyflawni, gan gynnwys gwerthusiadau cryno defnyddiol o gynnydd;
- roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys dangosyddion perfformiad ar gyfer sawl maes ac, os oeddent ar gael, cymariaethau â'i berfformiad ei hun ers 2009-10 ac â'r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru; ond
- oherwydd amgylchiadau eithriadol, ni chyhoeddodd yr Awdurdod ei Adroddiad Blynyddol tan saith diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad cau, sef 31 Hydref 2012.

22 Yn yr un llythyr, nodwyd bod ffocws cynyddol yr Awdurdod ar ddarparu hunanasesiad cytbwys ar y gwaith o gyflawni blaenoriaethau, yn hytrach na chamau gweithredu'n unig, mewn perygl o gael ei danseilio gan wendidau yn ei ddefnydd o ddangosyddion perfformiad lleol.

23 Roedd y casgliad hwn yn adlewyrchu ein barn bod hunanwerthusiad yr Awdurdod yn canolbwyntio mwy ar effaith ei weithgareddau, yn hytrach nag ar y gweithgareddau eu hunain, a'i fod yn fwy hunanfeirniadol ynglŷn â'i gynnydd tuag at gyflawni ei amcanion. Mae hyn yn rhannol oherwydd ymateb cadarnhaol yr Awdurdod i'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella yn y maes hwn. Er enghraifft, er bod adroddiadau chwarterol i aelodau Pwyllgor Archwilio a Chraffu'r Awdurdod ar berfformiad yn dal i gael eu grwpio o dan benawdau cyfarwyddiaethau, mae'r Awdurdod yn cynnwys adroddiadau eithrio ar gynnydd tuag at flaenoriaethau. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn derbyn adroddiad cynnydd ar un amcan gwella bob chwarter.

24 Mae'r Awdurdod hefyd yn cynnal adolygiad craffu manwl o ddau Amcan Gwella bob blwyddyn. Mae hwn yn ddull arloesol, cymharol newydd sy'n cryfhau dull yr Awdurdod o graffu ar ei berfformiad yn fawr ac yn helpu i nodi meysydd ar gyfer gwella.

25 Mae'r datblygiadau hyn yn helpu i ddarparu dulliau mwy effeithiol o fonitro a chraffu ar gynnydd gydol y flwyddyn. Mae'r Awdurdod bellach yn cynnwys yn ei Adroddiad Blynyddol asesiad cyffredinol o ba mor llwyddiannus y creda'r Awdurdod y mae wedi bod o ran cyflawni pob amcan gwella. Mae'r asesiadau cyffredinol hyn yn rhoi dealltwriaeth glir i ddarllenwyr o farn yr Awdurdod ar arwyddocâd y wybodaeth fanylach yng ngweddill yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r asesiadau hyn yn cydnabod ym mha feysydd y cafwyd llwyddiant rhannol ac ym mha feysydd y mae angen gwneud llawer mwy o waith.

26 Fodd bynnag, nid oedd yr Awdurdod yn siŵr sut y dylai gasglu, defnyddio ac adrodd ar o leiaf rai o'i ddangosyddion perfformiad lleol diweddar. Cafodd y dangosyddion perfformiad lleol hyn eu cynllunio'n bennaf i alluogi'r Awdurdod i ganolbwyntio llawer mwy ar fesur effaith, yn hytrach na'r gweithgareddau eu hunain, a chawsant eu casglu am y tro cyntaf yn 2011-12.

27 Wrth edrych ar sampl fach o ddangosyddion perfformiad lleol, gwelsom broblemau gyda rhai ohonynt. Yn ogystal, ni adroddwyd ar rai mesurau yr oedd yr Awdurdod wedi dweud y byddai'n eu defnyddio i asesu cynnydd oherwydd anawsterau wrth gasglu data. Mae gwerthusiad yr Awdurdod o gynnydd yn rhannol seiliedig ar y dangosyddion perfformiad lleol hyn ac, felly, mae eu cywirdeb, eu dilysrwydd a'u perthnasedd yn bwysig. Awgrymodd ein canfyddiadau fod gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar ddangosyddion perfformiad heb wirio eu dilysrwydd yn beth peryglus i'r Awdurdod ei wneud.

28 Ers derbyn ein hadborth ar y materion hyn, mae'r Awdurdod wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa. Mae Tîm Rheoli Corfforaethol yr Awdurdod wedi cytuno ar broses monitro a chymeradwyo newydd ar gyfer dangosyddion perfformiad a ddefnyddir fel rhan o adroddiad diwedd blwyddyn yr Awdurdod ar gyfer 2012-13 a thu hwnt. Mae'r broses hon yn ymgorffori cofnod wedi'i ardystio o elfennau allweddol y dangosydd perthnasol, gan gynnwys unrhyw darged y cytunwyd arno ynghyd â sylwebaeth ar berfformiad, ac mae'n cael ei dilysu gan y Cyfarwyddwr perthnasol. Ar gyfer 2013-14 a thu hwnt, bydd angen i'r Awdurdod sicrhau bod y broses yn cynnwys asesiad cychwynnol o ddilysrwydd y dangosydd perfformiad perthnasol ac agweddau ymarferol casglu'r wybodaeth ofynnol.

29 Mae cynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ofyniad cymharol newydd i awdurdodau lleol. Dylai Datganiad Llywodraethu Blynyddol effeithiol werthuso'r trefniadau sydd ar waith gan awdurdod, yn hytrach na'u disgrifio'n unig. Wrth werthuso ei drefniadau, bydd Awdurdod mewn sefyllfa well o lawer i nodi gwendidau a chymryd camau i wneud gwelliannau priodol. Fel sy'n wir yn hanes llawer o Ddatganiadau Llywodraethu Blynyddol eraill a gynhyrchir gan awdurdodau lleol ledled Cymru, ni chafwyd fawr ddim gwerthuso trefniadau yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod ar gyfer 2011-12. Fodd bynnag, roedd y swyddogion a'r aelodau y buom ni'n siarad ni â nhw yn cydnabod y diffyg hwnnw ac, mewn ymateb i'w cais, rydym wedi darparu rhagor o wybodaeth i'r Awdurdod ynglŷn â sut y gellid ymgorffori gwerthuso yn y dyfodol. Mae llawer o'r pwyntiau hyn yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i wella Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod ar gyfer 2012-13 ac rydym yn bwriadu cynnal gweithdy ar gyfer y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol agos a fydd yn gymorth i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu Datganiadau Llywodraethu Blynyddol mwy defnyddiol yn y dyfodol.

30 Roedd adroddiad archwilio mewnol Ionawr 2013 yr Awdurdod gan Deloitte yn cynnwys sylwadau cadarnhaol ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg yr Awdurdod ar gyfer 2012-13. Bydd Adroddiad Deloitte yn ddefnyddiol i'r Awdurdod allu cynnwys mwy o werthuso yn ei Ddatganiad Llywodraethu nesaf.

31 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon yr Awdurdod ar 28 Medi 2012 ac, yn seiliedig ar hyn, mae'r Archwilydd Penodedig o'r farn bod y datganiadau ariannol yn foddhaol ar y cyfan. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Er bod yr Awdurdod yn parhau i wella ei gynlluniau ar gyfer gwella a'i drefniadau ategol, mae'n cydnabod bod angen iddo wneud mwy i wneud rhai o'r trefniadau hynny'n rhan annatod o'r Awdurdod

32 Aethom ati hefyd i ysgrifennu at Brif Weithredwr yr Awdurdod ym mis Awst 2012 i'w gynghori am y trefniadau yr oedd yr Awdurdod wedi'u rhoi ar waith i sicrhau gwelliannau yn ystod 2012-13. Yn ein barn ni, roedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan y Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru hyd at fis Awst 2012, ac yn gyfyngedig i'r cyfnod hwnnw, credwn fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13.

33 Daethom i'r casgliadau hyn am sawl rheswm, gan gynnwys:

- roedd amcanion gwella'r Awdurdod ar gyfer 2012-13 wedi'u datblygu ar sail ymgynghoriad a chyda chymorth staff ac aelodau ac roeddent yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau, yn hytrach na chamau gweithredu;
- roedd cynllun gwella'r Awdurdod ar gyfer 2012-13 yn amlinellu cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau gwelliannau a, lle bo'n briodol, yn pennu mesurau a thargedau ar gyfer ei amcanion gwella; ac
- roedd yr Awdurdod wedi sefydlu rhaglen a oedd yn sicrhau y gallai aelodau graffu ar gynnydd tuag at gyflawni amcanion gwella unigol.

34 Mae cynllun gwella'r Awdurdod ar gyfer 2012-13 yn welliant sylweddol o gymharu â'i gynlluniau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cynllun bellach yn hawdd ei ddarllen ac yn adrodd stori mewn perthynas â phob amcan gwella, gan ddefnyddio penawdau fel 'Pam rydym yn canolbwyntio ar yr Amcan Gwella hwn?', 'Beth y byddwn yn ei wneud?', 'Sut y byddwn yn gwneud hynny?' a 'Sut y byddwn yn gwybod a ydym wedi cyflawni.....'. Er y gallai'r wybodaeth sy'n ymddangos o dan y penawdau hyn, yn enwedig mewn perthynas â mesurau llwyddiant, fod yn fwy perthnasol a defnyddiol i'r darllenwr, mae'r Awdurdod yn gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn.

35 Roedd cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer 2012-13 yn cynnwys amcan gwella i ddarparu gwasanaeth cynllunio heb ei ail. Yn ddealladwy, rhan o'r nod oedd bod yn glir ynglŷn â beth yw gwasanaeth cynllunio heb ei ail. Y bwriad oedd cynnal ymgynghoriad i lywio'r ddealltwriaeth honno ym mis Hydref 2012 ond ni chynhaliwyd yr ymgynghoriad hwnnw tan fis Chwefror 2013, gydag ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn ystod mis Mawrth 2013.

36 Er ei bod hi'n rhy gynnar i ffurfio barn ar gynlluniau gwella'r Awdurdod yn ystod 2013-14, dylai canlyniadau'r ymgynghoriad hwn wella gallu'r Awdurdod i asesu ei gynnydd tuag at gyflawni'r amcan hwn. Fodd bynnag, rydym yn deall bod Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfarfodydd i drafod sut y gallai awdurdodau cynllunio ledled Cymru ddefnyddio dulliau mwy ystyrlon i

fesur perfformiad. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhan o adolygiad ehangach gan Lywodraeth Cymru o'r fframwaith gwasanaeth cynllunio ledled Cymru. Bydd hi'n bwysig bod yr Awdurdod yn sicrhau bod unrhyw fesurau a fabwysiadir ar gyfer 2013-14 a thu hwnt yn ystyried unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'r gwaith hwn.

37 Symudodd yr Awdurdod yn gyflym i ymateb i gynigion ar gyfer gwella a gyflwynwyd yn ein hadroddiadau blaenorol. Er enghraifft, er bod adroddiadau chwarterol i aelodau ar berfformiad yn dal i gael eu grwpio o dan benawdau cyfarwyddiaeth, mae'r Awdurdod hefyd yn cynnwys adroddiadau eithrio ar gynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau ac mae Pwyllgor Archwilio a Chraffu'r Awdurdod yn derbyn adroddiad cynnydd ar un amcan gwella bob chwarter. Mae'r rhain yn ychwanegol i'r adolygiadau craffu manwl o'i ddau Amcan Gwella bob blwyddyn y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

38 O ganlyniad i'r etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd ym mis Mai 2012, roedd 13 o'r 24 aelod yn newydd i'r Awdurdod. Nid oedd pump o'r 13 hyn wedi bod yn aelodau o'r awdurdodau lleol penodi yn y gorffennol. Roedd hyn yn golygu newid mawr i aelodaeth yr Awdurdod ac, yn ogystal â golygu bod angen i'r Awdurdod ddarparu mwy o hyfforddiant, roedd gan y newidiadau hyn y potensial i ddylanwadu ar y cyfeiriad a bennwyd gan y weinyddiaeth flaenorol.

39 Fodd bynnag, hyd yma, nid yw'r Awdurdod wedi cyflwyno unrhyw newidiadau mawr o ran ei ddull o sicrhau gwelliant. Mae hyn yn rhannol oherwydd y gwaith sefydlu a'r hyfforddiant helaeth a ddarperir i aelodau gan yr Awdurdod a thrwy gyfraniad gweithredol Cadeirydd yr Awdurdod at ymgysylltu ag aelodau newydd. Mae tystiolaeth anecdotaidd sy'n codi o gyfweliadau datblygu personol parhaus ag aelodau wedi bod yn gadarnhaol o ran y gefnogaeth ar gyfer dull gwella presennol yr Awdurdod. Mae rhaglen hyfforddiant modiwl pum mlynedd dreigl yr Awdurdod i aelodau'n rhan allweddol o ddull yr Awdurdod o gefnogi aelodau ac roedd yn ffactor allweddol yn y penderfyniad i ddyfarnu Siarter Uwch Cymorth Aelodau a Datblygu i'r Awdurdod.

40 Tan yn ddiweddar, roedd yr Awdurdod yn talu lwfans mynychu dyddiol i aelodau, sy'n unigryw ymhlith y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Yn ddiweddar, argymhellodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) y dylai cydnabyddiaeth ariannol i aelodau fod yn seiliedig ar gyflog blynyddol. Wrth roi'r newid hwn ar waith ar gyfer yr Awdurdod, roedd yna berygl y byddai aelodau'n llai tebygol o fynychu cyfarfodydd. Yn wir, mae dadansoddiad yr Awdurdod yn dangos bod lefelau presenoldeb wedi gostwng, a hynny dros 10% mewn rhai pwyllgorau. Mae'r Awdurdod yn bwriadu codi'r mater hwn pan fydd yn cyfarfod â'r Panel ym mis Mai, yn ogystal â cheisio mynd i'r afael ag ef trwy ei broses ddatblygu personol ei hun i aelodau.

41 Mae'r Awdurdod yn parhau i wella ei ddull o reoli perfformiad a nodi ei flaenoriaethau, ac mae'n gwneud rhywfaint o gynnydd o ran ymgorffori rhai o'r agweddau mwy ymestynnol ar ei fethodoleg. Mae'r adran 'Sut y byddwn yn gwneud hynny?' yng nghynllun gwella'r Awdurdod yn amlinellu gweithgareddau ar lefel gyffredinol. Mae mwy o fanylion am weithgareddau ategol wedi'u hamlinellu mewn dogfennau adolygiad rheoli perfformiad. Cynhelir adolygiadau rheoli perfformiad bob tri mis ac mae'r adolygiadau hyn yn cynnwys asesiadau sy'n canolbwyntio ar gyflawni amcanion gwella'r Awdurdod.

42 Er bod cynlluniau busnes gwasanaeth yn cael eu cynhyrchu, maent yn cael eu datblygu gan wasanaethau unigol. Nid oes yna fformat corfforaethol safonol ar gyfer cynlluniau busnes gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau yr edrychwyd arnynt yn cynnwys cysylltiadau clir â blaenoriaethau'r Awdurdod. Nid yw'r Awdurdod wedi gwneud penderfyniad hyd yma ynglŷn ag a ddylai symud i fformat corfforaethol ar gyfer cynllunio busnes, ond mae'n bwriadu gwneud hynny ar ôl cytuno ar ei ddull o gyflawni ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'i Gynllun Rheoli'r Parc hirdymor.

43 Yn ystod 2011-12, aeth yr Awdurdod ati i ddatblygu a mabwysiadu 'Pecyn cymorth i Gyfarwyddwyr'. Prif ysgogiad y fenter hon oedd dymuniad yr Awdurdod i wella a symleiddio'r ffordd y mae'r gwaith o flaenoriaethu ei gamau gweithredu, yn gysylltiedig â Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, yn cael ei fonitro, ei werthuso a'i adrodd. Ar y cychwyn, roedd y gwaith o gyflwyno'r pecyn cymorth hwn yn gymharol dameidiog ledled y sefydliad ond, erbyn hyn, mae yna arwyddion bod y sefyllfa hon yn gwella. Mae'r Awdurdod yn disgwyl gwelliannau pellach pan fydd y cysylltiad rhwng ei amcanion gwella o dan y Mesur a'i Gynllun Rheoli'r Parc yn cael ei gryfhau ar gyfer 2013-14. Mabwysiadodd yr Awdurdod chwe thema allweddol Cynllun Rheoli'r Parc fel ei nodau corfforaethol ar gyfer 2013-14 a thu hwnt.

44 Fel rhan o nod barhaus yr Awdurdod o wella dulliau craffu a chanolbwyntio mwy ar sicrhau bod ei flaenoriaethau'n cael eu cyflawni, mae ei Bwyllgor Archwilio a Chraffu wedi cyflwyno rhaglen sy'n cynnwys adolygiad o amcan gwella unigol bob chwarter ynghyd ag adolygiadau craffu manwl o ddau o'i Amcanion Gwella bob blwyddyn.

45 Er mwyn mynd i'r afael â thanberfformiad blaenorol yn ei wasanaeth gorfodi cynllunio, cyflwynodd yr Awdurdod wahanol drefniadau rheoli i'r swyddogaeth orfodi dros dro. Llwyddodd hyn i wella'r prosesau gorfodi. Arweiniodd y gwelliant hwn a chapasiti cynyddol at well perfformiad. Mae bwriad yr Awdurdod i ddychwelyd y swyddogaeth orfodi i'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cynllunio bellach wedi'i roi ar waith, gyda Phwyllgor Archwilio a Chraffu'r Awdurdod yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad.

46 Ymgorfforwyd ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg yn y broses Sgrinio Effeithiau ar Gydraddoldeb, a derbyniodd aelodau staff hyfforddiant ar gwblhau'r broses. Bu cynnydd bychan yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn y gweithlu ac mae'r Comisiynydd o'r farn y gallai'r Awdurdod gynnig gwasanaeth Cymraeg mewn sefyllfaoedd ble mae'n ymwybodol o ddewis iaith y defnyddiwr ymlaen llaw. Mae'r Awdurdod yn cefnogi staff sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg trwy fynychu gwersi nos, ac yn caniatáu i weithwyr fynychu gwersi yn ystod y diwrnod gwaith.

47 Fel y nodwyd y llynedd, nid oes modd gwarantu gwasanaeth Cymraeg yn y brif dderbynfa a gallai hyn olygu bod y cyhoedd yn llai tebygol o ddefnyddio'r iaith wrth gysylltu â'r Awdurdod.

48 Ymrwymodd yr Awdurdod i gyhoeddi pob dogfen a fyddai ar werth i'r cyhoedd yn ddwyieithog o fis Medi 2012, a sicrhau y byddai'r wefan yn gwbl ddwyieithog erbyn mis Awst 2012. Ymrwymodd hefyd i ddatblygu dulliau o fesur ansawdd y gwasanaeth a bodlonrwydd ag ef, a dylai hyn fod yn flaenoriaeth yn 2013. Mynegwyd pryder y llynedd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg oherwydd oedi ar ran yr Awdurdod wrth gyflwyno cynllun iaith diwygiedig. Fe'i cyflwynwyd i'r Comisiynydd ym mis Ionawr 2013.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r Awdurdod

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae'r Awdurdod yn gwario tua £6.3 miliwn y flwyddyn (2012-13). Mae hyn yn cyfateb i tua £189 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd yr Awdurdod £105,000 ar eitemau cyfalaf hefyd.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 24 o aelodau. Mae 16 ohonynt yn aelodau etholedig a benodwyd gan gynghorau lleol sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn ardal yr Awdurdod, a phenodwyd yr wyth aelod arall gan Lywodraeth Cymru. Mae'r aelodau hyn yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth yr Awdurdod fel a ganlyn:

- Wyth a benodwyd gan Gyngor Sir Powys;
- Dau a benodwyd gan Gyngor Sir Fynwy;
- Dau a benodwyd gan Gyngor Sir Gâr;
- Un a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;
- Un a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;
- Un a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;
- Un a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; ac
- Wyth a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Prif Weithredwr yr Awdurdod yw John Cook. Y Cyfarwyddwr Cynllunio yw Christopher Morgan a'r Cyfarwyddwr Cefn Gwlad a Rheoli Tir yw Julian Atkins.

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan yr Awdurdod ei hun yn www.bannaubrycheiniog.org neu cysylltwch â'r Awdurdod yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Mr J Cook
Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambrian
Aberhonddu
Powys
LD3 7HP

Annwyl Mr Cook

**Llythyr Archwilio Blynyddol**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi yn sgil fy nghyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Penodedig o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Awdurdod y Parc â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a'i ddefnydd o adnoddau**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'r trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau yng Nghymru'n paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 28 Medi 2012, cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y materion allweddol a oedd yn codi o'r archwiliad eu cyflwyno i'r aelodau yng nghyfarfod llawn yr Awdurdod yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol (ISA260) ar 28 Medi 2012. Mae'r prif faterion a oedd yn codi fel a ganlyn:

- Wrth adolygu trafodion a broseswyd ar ôl diwedd y flwyddyn, nodais nifer o dderbynebau a thaliadau a oedd yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2011-12 nad oeddent wedi'u cofnodi yn y cyfnod cywir. Mae angen i adran gyllid barhau i weithio gyda deiliaid cyllidebau ac adolygu trefniadau 'diwedd blwyddyn' er mwyn sicrhau bod yr holl drafodion a brosesir ar ôl diwedd y flwyddyn, ond sy'n berthnasol i'r flwyddyn flaenorol, yn cael eu nodi a'u cofnodi'n gywir.

- Roedd nifer fach o 'gamddatganiadau wedi'u cywiro'.

- Ni wynebais unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod ein harchwiliad. Derbyniwyd gwybodaeth yn brydlon a chawsom bob cymorth i gwblhau ein gwaith yn ddirwystr. Mae'r trefniadau gweithio effeithiol a fabwysiadwyd gan staff yr adran gyllid wedi parhau eleni.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 28 Medi 2012. Yn ystod y flwyddyn, ni chafwyd yr un her na gwrthwynebiad ffurfiol i'r materion y bûm yn eu trafod. Fodd bynnag, roedd rhaid i mi fynd i'r afael ag amrywiaeth o ohebiaeth mewn perthynas â'r Adran Gynllunio a mater cynllunio blaenorol ac yn gysylltiedig â nifer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Roedd rhaid i mi ddefnyddio adnoddau archwilio ychwanegol i ystyried y materion hyn, ond nid wyf yn bwriadu codi ffioedd archwilio ychwanegol mewn perthynas â'r gwaith hwn, a bydd y ffi derfynol yn unol â'r swm a nodir yn fy Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar waith archwilio a wnaed ar y cyfrifon, yn ogystal â gallu dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn gyffredinol, rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu meysydd lle na ddangoswyd effeithiolrwydd y trefniadau hyn eto neu lle gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i holl staff yr Awdurdod fu o gymorth i mi wrth gwblhau'r archwiliad.

Yn gywir

**Richard Harries, Arweinydd Ymgysylltu**
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**
**28 Tachwedd 2012**

Cc Elaine Standen, Rheolwr Cyllid

Mae gan etholwyr lleol ac eraill hawl i weld cyfrifon yr Awdurdod. Ar ôl i'r Awdurdod gwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, sy'n digwydd tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf fel arfer, mae'n rhaid iddo roi gwybod i'r cyhoedd bod modd gweld y cyfrifon. Gallwch ofyn i'r Awdurdod ddarparu copi o'r cyfrifon ar eich cyfer; gallwch hefyd archwilio'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n gysylltiedig â'r cyfrifon hyd at 20 diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r cyfrifon. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch ddweud wrth yr archwilydd os ydych chi'n credu bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd yr Awdurdod wrth ddarparu gwasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau*, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

## Amcanion gwella'r Awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn *Cynllun Gwella 2012-13 Rhan 1* sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod yn www.bannaubrycheiniog.org Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Amcanion Gwella ar gyfer 2011-12 | Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 |
|---|---|
| Gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cynllunio rhagorol | Mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaeth cynllunio rhagorol |
| Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, gan greu incwm a gwella gallu'r ardal i wrthsefyll y cynnydd mewn costau tanwydd | Mae nodweddion arbennig y Parc yn cael eu diogelu rhag datblygiadau amhriodol |
| Diogelu nodweddion arbennig y Parc yn well rhag datblygiadau amhriodol | Mae treftadaeth y Parc yn cael ei gwarchod a'i gwella |
| Gwarchod treftadaeth adeiledig y Parc yn well | Bydd hyder y cyhoedd a hygyrchedd trefniadau busnes a llywodraethu'r Awdurdod yn cael eu gwella |
| Lleihau'r difrod i amgylchedd y Parc | Mae bioamrywiaeth yn cael ei warchod a'i wella trwy ymgysylltu â'r cyhoedd, trwy gymryd camau ymarferol a thrwy gyngor cynllunio |
| | Mae cymunedau'n cael eu hysbrydoli gan fanteision eu hardal leol, ac yn cydnabod y manteision hynny |

## Hunanasesiad yr Awdurdod o berfformiad

Mae hunanasesiad yr Awdurdod o berfformiad yn ystod 2011-12, sef Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Gwella 2011-12 Rhan 2, ar gael ar wefan yr Awdurdod yn www.breconbeacons.org.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk